

# Dysgu o'r Rhaglen Mewn Undod Mae Nerth, 2021-2024, Crynodeb Gweithredol

NDTi, Tachwedd 2024



*"Yn yr amgylchiadau mwyaf anodd, waeth beth sy'n digwydd o amgylch y byd neu yn y Dwyrain Canol, mae'n bosib rhoi cyfeillgarwch yn gyntaf, mae'n bosib rhoi dynoliaeth yn gyntaf ac ymgysylltu gyda rhywun o'r ochr arall, a mwynhau eu cwmni hyd yn oed."* (Cyfranogwr yn y prosiect BPT)

Nod y Rhaglen Mewn Undod Mae Nerth (BPT) oedd gwella dealltwriaeth o'r **hyn sy'n gweithio i greu undod rhwng pobl**. Crëwyd y rhaglen o 23 o brosiectau amrywiol, a ariannwyd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (TNLCF), ac a gynhaliwyd rhwng Hydref 2021 a Hydref 2026. Ariannodd y rhaglen brosiectau a helpodd cymunedau i lwyddo a ffynnu drwy greu'r amodau, seilwaith a'r deunydd cymdeithasol i alluogi ffyrdd gwell a mwy parhaol o ddod â phobl a chymunedau ynghyd.

Mae'r adroddiad hwn yn dwyn dysg y Tîm Datblygu Cenedlaethol dros Gynhwysiant (NDTi) fel **Partner Dysgu BPT** rhwng dechrau 2022 a diwedd 2024 ynghyd. Gweithiodd NDTi ochr yn ochr â phrosiectau a TNLCF i gyfleu'r ddysg sydd wedi'i rhannu isod.

Mae BPT wedi cynhyrchu mewnwelediadau a dealltwriaeth ynghylch natur cryfhau cymunedau a chysylltiadau ledled y DU. Er bod y rhaglen wedi'i darparu yn y cyd-destun mwyaf heriol, mae BPT wedi **datgloi peth o'r 'llawnder'** sy'n bodoli o fewn cymunedau.

Gobeithiwn y bydd yr adroddiad yn **ddefnyddiol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd** gan gynnwys: arweinwyr a gweithredwyr cymunedol, y rheiny sy'n rhan o brosiectau a ddyluniwyd i gryfhau cysylltiadau a pherthnasau ar draws rhwygiadau, grwpiau a sefydliadau cymunedol gan gynnwys NGOs a mentrau cymdeithasol, yn ogystal â busnesau, awdurdodau lleol, entrepreneuriaid ac ymchwilwyr.

Mae'r mewnwelediadau gan BPT, sy'n cael eu crynhoi isod, yn gwneud **cyfraniad pwysig** i ddysg ehangach ar sut i ddod â phobl a chymunedau ynghyd, ar adeg pan mae'r wybodaeth hon yn fwy gwerthfawr ac angenrheidiol nag erioed.

## Mewnwelediadau Allweddol

**Mae paratoi'r tir a chreu'r amodau ar gyfer newid yn broses araf a bwriadol, ac mae'n cynnwys y camau canlynol:**

- Deall a mapio'r darlun cyfredol drwy ddod o hyd i bobl sy'n rhannu'r un amcanion, rhwydweithiau presennol a'r cysylltiadau rhyngddynt.
- Meithrin perthnasoedd a phartneriaethau, drwy fynd i'r afael â sgysiaau cynnar gyda llawer o feddwl a sensitifrwydd.
- Meithrin ymdeimlad o ymddiriedaeth a pherthyn a sefydlu awyrgylch cadarnhaol o'r cychwyn cyntaf.
- Gweithio gyda'r gylchred, ystyried yn ofalus pryd yw'r amser cywir i gynnwys pobl a deall llif naturiol egni.

## **Mae'r dulliau a ddefnyddir gan brosiectau BPT yn hynod amrywiol ac yn gweithredu ar wahanol lefelau, o sgysiau meicro un-i-un i ddatblygiadau ledled y DU, ond maent yn rhannu rhai elfennau cyffredin:**

- Wedi'u gwreiddio mewn gwerthoedd a rennir a themâu cyffredin, er enghraifft, perthnasoedd cadarnhaol, cyfartal, parch, hyblygrwydd ac ymatebolrwydd.
- Yn seiliedig ar ddamcaniaeth a thystiolaeth, fel damcaniaeth rhwydwaith gymdeithasol, ond yn aml yn cael eu cymhwyso i gyd-destunau newydd ac mewn ffyrdd newydd.
- Yn canolbwyntio ar iaith gyfoethog a chreadigrwydd, wedi'u hadeiladu ar straeon am newid, ac yn aml gyda'r celfyddydau a diwylliant fel profiad a rennir.
- Yn osgoi modelau anhyblyg a gor-drefnu, gan adael lle i syniadau ymddangos ac i bethau annisgwyl ddigwydd.

## **Yn rhaglunio ac yn pwysleisio gwersi pwysig am gryfhau perthnasoedd a phontio rhwygiadau:**

- Yn dod â phobl ynghyd gydag addfwynder a thrugaredd, gan gyflwyno gwahanol grwpiau mewn modd sensitif a chreu ymdrechion ar y cyd.
- Creu'r amgylchedd cywir - mannau diogel neu fannau dewr? Tra bod angen i gyfranogwyr deimlo'n ddiogel, mae angen lle i sgysiau anghyfforddus a heriau hefyd.
- Yn gwneud defnydd creadigol o adnoddau cymunedol, er enghraifft drwy agor lle nad yw'n cael digon o ddefnydd mewn archfarchnadoedd fel man cwrdd.
- Yn adeiladu arbenigedd ac yn buddsoddi ynddo, fel hwyluso medrus a dewr, yn ogystal â sgiliau adeiladu rhwydwaith, rhannu adnoddau ac adeiladu capasiti, a chefnogi arweinwyr y dyfodol.
- Diogelu cymunedau drwy ddod â phobl ynghyd i greu cysylltiadau emosiynol cryf a gwrthbwysio unrhyw naratif rhwygol ar y cyfryngau cymdeithasol.

## **Mae BPT wedi cyfrannu at symud pŵer tuag at bobl a chymunedau, drwy:**

- Siarad am lle mae'r pŵer mewn cymuned - gan bwy mae'r pŵer, sut maent yn ei ddefnyddio ac i ba raddau y mae'n cael ei rannu?
- Cefnogi pobl i leihau'r bwlch mewn pŵer, er enghraifft drwy froceru cysylltiadau rhwng grwpiau cymunedol bach neu gynnig cyfle i bobl nad ydynt yn arfer cael pŵer.
- Adeiladu ar gyfer y dyfodol drwy gefnogi cymunedau i gymryd rheolaeth a symud y gwaith i'r cam nesaf.

## **Creu amgylchedd cefnogol ar gyfer newid**

- Mae cyllidwyr yn chwarae rhan allweddol o ran modelu hyblygrwydd, ymatebolrwydd a'r natur ddynol.
- Mae rhwydwaith ddysgu dan arweiniad gwerthoedd yn ddefnyddiol i adeiladu a rhannu dysg.

## **Beth nesaf?**

### **Er bod BPT yn rhaglen gyllid sy'n gyfyngedig o ran amser ac yn tynnu at ei therfyn, mae'r rhaglen yn pwysleisio pum gwers allweddol ynglŷn â chynnal yr hyn sy'n gweithio, gweithredu'r ddysg a'i defnyddio yn y dyfodol:**

- Cynnal yr hyn sy'n gweithio a chynnal momentwm drwy drosglwyddo pŵer i gymunedau.
- Buddsoddi mewn pobl a rolau allweddol gyda chyfrifoldeb penodol i ddod â phobl ynghyd a phontio rhwygiadau.
- Cefnogi ffyrdd o helpu i adeiladu capasiti i ddod â phobl ynghyd, er enghraifft drwy ddatblygiad sgiliau.
- Meithrin arbenigedd a dealltwriaeth ar y cyd drwy ddod â phrosiectau a sefydliadau ynghyd mewn rhwydweithiau dysgu.
- Creu ffyrdd cymesurool a chreadigol o archwilio, olrhain a deall effaith.